

# Digwyddiadau yn Sir Conwy - Gorffennaf 2018

Ewch i'n gwefan [www.visitconwy.org.uk](http://www.visitconwy.org.uk) i gael gwybodaeth am lety, gweithgareddau, atyniadau a digwyddiadau

**Gardd Bodnant** - Tal-y-Cafn, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 650460. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: [www.nationaltrust.org.uk/bodnant-garden](http://www.nationaltrust.org.uk/bodnant-garden). Prisiau mynediad arferol yn berthnasol - **7 a 8 Gorffennaf - Beefest** - Ar Ddiwrnod Cenedlaethol Dolydd bydd gennym ni sesiynau crefft, chwilio am wenyn a llond cwch gwenyn o hwyl. Rhwng 10am a 3.30pm. Does dim angen archebu ymlaen llaw. **30 Gorffennaf - Teithiau Cerdded Adar** - Dewch i wybod am adar Gardd Bodnant ar daith gerdded wedi'i thywys gan arbenigwr lleol. Rhwng 11am a 12.30pm. Mae'n rhaid archebu lle.

**Castell Conwy** - Conwy. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 592358. Gwe: [www.cadw.gov.wales/](http://www.cadw.gov.wales/) - **27 Gorffennaf - Diwrnodau Hwyl i'r Teulu** - Dewch i Gastell Conwy i chwarae gemau a chael hwyl! Gadewch i gellweiriwr y dref eich diddanu gyda'i gampau digrif, dewch i eistedd a gwrando ar hen chwedlau a dewch i ddysgu mwy am droseddau a chosbau'r oesoedd canol. Yn ogystal, beth am adael i'ch plant roi cynnig ar saethyddiaeth a chwarae gemau canoloesol? Rhwng 11am a 4pm. **29 Gorffennaf - Sioe Promenâd Owain Glyndŵr** - Un chwedl. Clustffonau. Nawr dawnsiuch. Mae Owain Glyndŵr, Tywysog a rebel chwedlonol Cymru, wedi diflannu! Dewch i ddarganfod ei dynged ar y llawr dawnsio. Am 6.30pm a 8pm. Tocynnau £5.

**Digwyddiadau Bywyd Gwylt** - Gwe: <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Events-and-Getting-Involved/Conwy-Wildlife-Events-2018/Conwy-Wildlife-Events-2018.aspx>

- **7 Gorffennaf - Heidio i'r Gogarth** - Ymunwch â Wardeniaid y Parc Gwledig a mentro i fyd bach llysdyfiant y Gogarth i ddysgu am sut mae'r creaduriaid lleiaf yn cael effaith fawr ar ein byd. Anelwyd y digwyddiad at blant yng nghwmni oedolyn. Yng Nghanolfan Ymwelwyr y Gogarth, Llandudno rhwng 12.30pm a 3pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 01492 874151
- **8 Gorffennaf - Taith gerdded cacwn ar y Gogarth** - Dewch i ymuno â Warden y Parc Gwledig a Christine Jones (Gwirfoddolwr gydag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Chyfaill y Fach), i ddod o hyd i gacwn a gwahanol rywogaethau eraill o fywyd gwylt. Cyfarfod yng nghaffi Parisella, y Fach, Llandudno. Rhwng 1pm a 3.30pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 01492 874151
- **14 Gorffennaf - Gloynnod Byw y Marian** - Mae Vic Hitchings sy'n diddori mewn Gloynnod Byw, a Warden y Warchodfa, yn eich gwahodd i archwilio a darganfod mwy am y gloynnod arbennig sydd i'w gweld yn y warchodfa a pham maent yn ffynnu yma. Cyfarfod yn Neuadd y Pentref Lllysfaen, Dolwen Road am 1pm ar gyfer cyflwyniadau a sgwrs. Bydd taith gerdded allan i'r warchodfa i ddilyn. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 07733 012842
- **30 Gorffennaf - Heicio yn y Grug ar Fynydd y Dre, Conwy** - Archwilio hanes a bywyd gwylt diddorol Mynydd y Dre, Conwy ac Ystâd Pencychnant gyfagos gyda thaith gerdded wedi'i thywys gan Sefydliad Pencychnant a'r Warden Cefn Gwlad Conwy. Cyfarfod yng Nghanolfan Gadwraeth Pencychnant, Ffordd Bwlch Sychnant, Conwy. Rhwng 1pm a 4pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Ffôn: 01492 575547

**MOSTYN** - 12 Vaughan Street, Llandudno. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul, 10.30am i 4pm. Ffôn: 01492 879201. Gwe: [www.mostyn.org](http://www.mostyn.org) - **Tan 1 Gorffennaf - Shezad Dawood - Leviathan** - Mae Leviathan yn naratif



episodaidd am syniadau ffiniau, iechyd meddwl a lles morol - materion o bryder ac sy'n atseinio'n ddwfn gyda lleoliadau arfordirol a bywyd heddiw. **Mike Perry - Tir / Môr** - Mae gwaith Mike Perry'n ymgysylltu gyda materion amgylcheddol dwys ac enbyd, y tensiwn rhwng gweithgareddau ac ymyrraeth dyn yn yr amgylchedd naturiol yn benodol, yn ogystal â breuder ecosystemau'r blaned. **Tan 30 Medi - James Green - I Fyd yr Asynnod** - Torluniau leino a sgrin-brintiau gan James Green: "Rwy'n artist/gwneuthurwr printiau sy'n gweithio o Sheffield. Fe wnes i ddarganfod creu printiau yn 2003 ar ôl i'm mam-yng-nghyfraith fenthylg rhywfaint o leino, offer ac inciau i fi. Ro'n ni wrth fy modd yn syth". **14 Gorffennaf i 4 Tachwedd - She Sees the Shadows** - Arddangosfa gyntaf o waith oddi ar safle y DU o Gasgliad David Roberts. Mae'r arddangosfa hon yn archwilio sifftiau mewn canfyddiad gwrthrychau a deunyddiau o fywyd dyddiol cyfoes.

**Plas Mawr** - Stryd Fawr, Conwy. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 580167. Gwe: [www.cadw.gov.wales/](http://www.cadw.gov.wales/) - **21 Gorffennaf - Eleni Duo** - Mae Plas Mawr yn llawn cerddoriaeth! Dewch i wrando ar ddeuawd enwog Eleni. Cyngerdd gyda'r nos (bydd angen prynu tocyn). Ymlaciwch i gerddoriaeth hudolus Deuawd Eleni yn chwarae'r delyn a'r fflwt mewn lleoliad cwbl arbennig. Rhwng 6.30pm a 8pm. Oedolion £12. **28 a 29 Gorffennaf - Cyfarfod y Trigolion** - Dewch i gyfarfod y Teulu i gael dysgu am eu bywydau. Rhowch gynnig ar wneud marsipán neu flodeuglwm, a dewch i ddawnsio a chwarae gemau. Rhwng 11am a 4pm.

**Gwarchodfa Natur RSPB** - Ger yr A55, Cyffordd Llandudno. Mae taliadau mynediad yn berthnasol ar gyfer llwybrau'r warchodfa. Ffôn: 01492 584091. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: [www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/conwy](http://www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/conwy) - **30 Mehefin i 8 Gorffennaf - Iechyd a Lles dros wythnos Natur** - Wythnos yn llawn gweithgareddau ar gyfer bob oed, yn cynnwys loga, Beicio (yn cynnwys beiciau balans ar gyfer y rhai bach a beiciau trydanol), Sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar, Tai Chi, Cyfeiriannu Teuluol, Gwaith Coed Gwyrdd a Gweithdai Kelly Kettle. **14 Gorffennaf - Cyfarfod y Dreigiau!** - Mae gweision y neidr a mursennod yn greaduriaid anhygoel, sy'n bodoli ers cyfnod y deinosoriaid. Dewch i ganfod mwy am y pryfed rhyfeddol hyn. Yn rhannol y tu mewn, yn rhannol y tu allan. Yn addas ar gyfer plant 12 oed a hŷn. Rhwng 1.30pm a 4pm. Mae archebu lle yn hanfodol. Mae taliadau yn berthnasol. **14 a 15 Gorffennaf - Ffair Gelf Adar Cymru** - Dewch i gwrdd ag artistiaid o Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd gwaith gwreiddiol, printiau a chardiau ar werth, gyda'r holl artistiaid yn portreadu'r adar yng Nghymru yn eu ffordd unigryw eu hunain drwy gyfryngau amrywiol. Rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim. **14, 21 a 28 Gorffennaf - Teithiau cerdded bywyd gwyllt ar ddyddiau Sadwrn** - Ymunwch â'n gwirfoddolwyr cyfeillgar a gwybodus ar daith gerdded wedi ei thywys o 11am. Mae taliadau yn berthnasol. **25 Gorffennaf - Marchnad Ffermwyr Conwy** - Cynnyrch fferm a nwyddau lleol o'r ansawdd gorau rhwng 9am a 1pm. Digwyddiad am ddim. **27 Gorffennaf - Dyluniadau ArtlySparkly** - Arddangosfa ac arwerthiant ffotograffiaeth natur, gemwaith morol gwydr ac anifeiliaid ffelt. Dewch i ymuno â ni yn y Guddfau rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim. **28 a 29 Gorffennaf - Cysgu Gwyllt dros nos** - Cipiwch y cyfle gwych hwn i dreulio noson mewn gwarchodfa natur! Byddwn ni'n darparu'r bywyd gwyllt a digon o anturiaethau anhygoel, yr unig beth fyddwch chi angen yn y tent ac ychydig o fwyd! O 6pm dydd Sadwrn tan 11am dydd Sul. Mae archebu lle yn hanfodol. Mae taliadau yn berthnasol.

**Theatr Colwyn** - Ffordd Abergele, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 577888/872000. Gwe: [www.theatrcolwyn.co.uk](http://www.theatrcolwyn.co.uk) - **1 Gorffennaf - Beauty & The Beast Jr** am 2pm a 6pm. **19 Gorffennaf - RSC Live: Romeo and Juliet** am 7pm.

**Venue Cymru** - Promenâd, Llandudno. Ffôn: 01492 872000. Gwe: [www.venuecymru.co.uk](http://www.venuecymru.co.uk) - **8 Gorffennaf - Ysgol Celfyddydau Perfformio Pearl Shaw yn cyflwyno Mish Mash** am 1pm a 5pm. **12 Gorffennaf - David Bowie - Starman** am 7.30pm. **13 Gorffennaf - Let's Twist Again** am 7.30pm. **14 a 15 Gorffennaf - Step One Go Live** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o wybodaeth. **20 a 21 Gorffennaf - Theatr Cerdd leuenctid Llandudno yn cyflwyno Barnum** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o wybodaeth. **22 Gorffennaf - The Proclaimers Live** am 7.30pm. **24 a 25 Gorffennaf - Little Baby Bum** - cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau am fwy o wybodaeth. **26 Gorffennaf - Kevin & Karen Dance** am 7.30pm. **27 Gorffennaf - The Orbison Story** am 7.30pm. **28 Gorffennaf - Jason Manford - Muddle Class** am 7.30pm.

**Pob dydd Llun - Ffair Grefftau CraTeaNooners** - Yn cael ei gynnal pob prynhawn dydd Llun gyda chardiau lleol wedi'u gwneud â llaw, anrhegion prydfarth wedi'u gwneud yn lleol â llaw ac arddangosiadau crefft. Lluniaeth ar gael. Croeso i bawb. Yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Mostyn Street, Llandudno rhwng 1.30pm a 4.30pm. Ffôn: 07730 499858

**Pob dydd Llun tan 10 Medi - Harmony Singers - Monday Night is Music Night** - Côr lleol yw'r Harmony Singers sy'n perfformio bob nos Lun. Mae'r côr yn perfformio cerddoriaeth amrywiol, rhywbeth i bawb. Bydd yr holl elw'n mynd at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Mostyn Street, Llandudno rhwng 8pm a 10pm (Drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: oedolyn £7, plentyn £3. Ffôn: 07912 292230. Gwe: [www.harmonysingers.co.uk](http://www.harmonysingers.co.uk)

**Pob dydd Mawrth yng Ngorffennaf - Cyngherddau Côr Meibion Llanddulas** - Bydd Côr Meibion enwog a phoblogaidd Llanddulas yn perfformio cyngherddau i gyfeiliant piano a thelyn. Yn Eglwys Unedig Gloddaeth, Chapel Street, Llandudno o 8pm. Tocynnau: £5. Ffôn: 01745 823791. Gwe: [www.llanddulaschoir.co.uk](http://www.llanddulaschoir.co.uk)

**Pob dydd Mawrth a dydd Iau - Cyngherddau Côr Meibion** - Tan 18 Hydref. Mwynhewch sain hyfryd Cymru yn awyrgylch hardd Eglwys Sant Ioan. Yn canu yn Gymraeg a Saesneg. Yn Eglwys Fethodistiaid Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno o 8pm. Tocynnau: £7 (Disgownt £1 ar gyfer deiliaid cerdyn preswylwyr Conwy). Ffôn: 01492 860439. Gwe: [www.stjohnsllandudno.org/](http://www.stjohnsllandudno.org/)

**Pob dydd Iau yng Ngorffennaf - Ffair Fintej a Hen Bethau** - Ffair Fintej a Hen Bethau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Amrywiaeth eang o nwyddau ar werth i weddu pawb a phob pced. Yn Neuadd Eglwys y Santes Fiar, Holyhead Road, Betws-y-Coed rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c, plentyn dan 16 am ddim. Ffôn: 01492 518597. Gwe: [www.simplythebestantiquefairs.co.uk/](http://www.simplythebestantiquefairs.co.uk/)

**Pob dydd Gwener tan 21 Rhagfyr - Marchnad Wledig Llandrillo-yn-Rhos** - Gyda bara cartref, cacennau, cyffeithiau, wyau ffres, planhigion, llawer o gardiau ac anrhegion a wnaed yn grefftus â llaw. Lluniaeth ar gael, croeso i bawb. Yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10am a 12pm. Ffôn: 01492 544920

**29 Mehefin i 1 Gorffennaf - Her Eryri** - Her gerdded yw Her Eryri, ac nid yw'n un i'r gwangalon. Mae'n brawf o wydnwch meddyliol a chorfforol a gwaith tîm a bydd yn eich cymryd ar daith o hunan-ddarganfyddiad. Digwyddiad llawn - 100km dros 3 diwrnod. Mae opsiynau o 1 a 2 ddiwrnod ar gael. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: [www.breeseadventures.co.uk/what-we-do/snowdonia-challenge/](http://www.breeseadventures.co.uk/what-we-do/snowdonia-challenge/)

**30 Mehefin i 15 Gorffennaf - Arddangosfa Haf Cymdeithas Gelfyddydau Sir Ddinbych** - Arddangosfa/ arwerthiant gwaith celf gan aelodau Cymdeithas Gelfyddydau Sir Ddinbych. Yn The Studio, 10 Penrhos Road, Bae Colwyn rhwng 10am a 4pm. Mynediad am ddim. Ffôn: 07808 473357. Gwe: [www.dasoc.info/](http://www.dasoc.info/)

**1 Gorffennaf - Gala yn y Parc** - Gorymdaith gymunedol a diwrnod llawn hwyl gyda Majorettes Cymdeithas Carnifal Cymru, cystadleuaeth gwisg ffansi, Ffair a Reidiau Simon, perfformiadau gyda Marchfilwyr Môn, adloniant plant Mr Bimbamboozle, cystadleuaeth sioe gŵn, stondinau a llawer mwy. Ym Mharc Gwydir, Llanrwst rhwng 10am a 6pm. Ffôn: 01492 680304. Gwe: [www.conwy-valley-rotary.org.uk](http://www.conwy-valley-rotary.org.uk)

**7 Gorffennaf - Ffair Hen Bethau a Chasglwyr** - Trefnwyd gan Llewod Llandudno gydag amrywiaeth eang o eitemau ar werth gyda phrisiau sy'n addas i bawb, yn amrywio o £1 i gannoedd o bunnoedd. Bydd yr holl elw yn mynd i elusennau lleol. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c. Ffôn: 01492 870147. Gwe [www.littleboroughlions.org.uk/](http://www.littleboroughlions.org.uk/)

**7 Gorffennaf - Diwrnod Hwyl i'r Teulu** - Ymunwch â ni am ein diwrnod hwyl i'r teulu! Bydd arddangosfeydd gan gyflenwyr lleol, celf a chrefft, rhostio mochyn, gweithgareddau i'r plant, cerddoriaeth fyw, blasu cwrw a gwin a mwy i gael ei gyhoeddi!! Yng Nghanolfan Bwyd Cymru Bodnant, Fferm Furnace, Tal y Cafn rhwng 11am a 4pm. Mynediad am ddim. Ffôn: 01492 651100. Gwe: [www.bodnant-welshfood.co.uk/](http://www.bodnant-welshfood.co.uk/)

**7 Gorffennaf - Ffair Haf Sant Joseff** - Diwrnod llawn hwyl i'r teulu cyfan! Bydd y gwestai enwog, Jay Hutton yn agor y ffair. Mae'r atyniadau yn cynnwys gemau carnifal, castell fownsio, gornest gladiator, tombola, barbiaciw, lluniaeth, cerddoriaeth ac adloniant, sesiynau sgiliau tennis am ddim a gweithdy sgiliau rygbi. Yng Nghae Chwarae Rydal, Brackley Avenue, Bae Colwyn rhwng 12pm a 4pm. Mynediad am ddim. Ffôn: 01492 532670. Gwe: [www.stjosephsrcc.org.uk/](http://www.stjosephsrcc.org.uk/)

**7 a 8 Gorffennaf - Sioe Trenau Bach Lled N Gogledd Cymru** - Gyda 12 o osodiadau ar ddangos, cefnogaeth ac eitemau ail-law ar werth. Lluniaeth ar gael a chyfleusterau i bobl anabl. Yn Ysgol Porth y Felin, Llanrwst Road, Conwy rhwng 10am a 5pm dydd Sadwrn a rhwng 10am a 4pm dydd Sul. Mynediad: oedolion £4, plant £2. Ffôn: 07703 393900. Gwe: [www.ngaugesocietynorthwalesareagroup.weebly.com/](http://www.ngaugesocietynorthwalesareagroup.weebly.com/)

**7 Gorffennaf i 8 Medi - 136fed Arddangosfa Haf Blynyddol** - Elusen yw'r Academi Frenhinol Gymreig sydd â'r nod o greu mwynhad o gelf weledol trwy gyfrwng arddangos bywiog a rhaglen addysgol. Yn Academi Frenhinol Gymreig, Crown Lane, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 11am a 5pm. Ffôn: 01492 593413. Gwe: [www.rcaconwy.org](http://www.rcaconwy.org)

**14 Gorffennaf - Carnifal Rowen** - Carnifal pentref traddodiadol gyda llawer i'w weld a'i wneud. Digon o bethau i ddiddanu'r teulu cyfan. Ar y Cae Chwarae, Neuadd Goffa Rowen, Rowen, Conwy rhwng 1pm a 5pm. Gwe: [www.rowenconwy.org.uk/activities/carnival/](http://www.rowenconwy.org.uk/activities/carnival/)



**14 Gorffennaf - Paloma Faith** - Gyda'i halbwm Rhif 1 'The Architect' yn profi llwyddiant yn y siartiau, ac enwebiad BRIT am y Ferch Brydeinig Orau, mae Paloma Faith wedi cyhoeddi taith yr haf dros y DU, sy'n cynnwys 20 dyddiad o sioeau y mae'n rhaid i chi eu gweld. Ymunwch a hi a gwesteion arbennig Jack Savoretti a Nia Wyn. Yn Stadiwm Zip World, Parc Eirias, Bae Colwyn gyda giatiau'n agor tua 4pm. Am docynnau cysylltwch â Venue Cymru ar 01492 872000. Gwe: [www.venuecymru.co.uk](http://www.venuecymru.co.uk)

**14/15 a 20-22 Gorffennaf - Gŵyl Afon Conwy** - Bydd gŵyl flynyddol Conwy ar y dŵr yn cael ei chynnal yn ystod dau benwythnos ym mis Gorffennaf. Bydd yr hwyl yn dechrau gyda Diwrnod ar y Cei a rasio ar ddydd Sadwrn 14eg a bydd y rasio yn parhau hyd at ddydd Sul y 15fed. Bydd y rali enwog LA-LA i Gaernarfon yn cael ei chynnal ddydd Gwener 20fed, dydd Sadwrn 21ain a dydd Sul 22ain Gorffennaf. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: [www.conwyriverfestival.org](http://www.conwyriverfestival.org)

**15 Gorffennaf - Ceir a Choffi ar y Prom** - Cynhelir y digwyddiad ar drydydd dydd Sul y mis drwy'r haf, rhwng mis Ebrill a mis Medi, ar gyfer perchnogion a selogion ceir clasurol a cheir o dras. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim, felly dewch draw a chw'rdd â selogion tebyg i chi i rannu straeon, brolio neu chwenychu. Croeso i bawb. Ar y Promenâd, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 9am a 2pm. Ffôn: 07962 421417. Gwe: [www.facebook.com/groups/272196209803253/](http://www.facebook.com/groups/272196209803253/)

**15 Gorffennaf - Oceanswim Bae Colwyn** - Ymunwch â ni i nofio yn y môr agored ym Mae Colwyn. Mae 'Oceanswim Bae Colwyn' yn cynnig nofio ansawdd uchel yn y môr gyda phellteroedd ar gyfer pob gallu. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: [www.uswimopenwater.com/Events/c/events](http://www.uswimopenwater.com/Events/c/events)

**21 Gorffennaf - Ffair Fintej a Hen Bethau** - Bydd amrywiaeth o nwyddau ar werth gyda phrisiau i weddu pawb: llestri talch, gwydr, lliainiau, peintiadau ac argraffiadau, llyfrau, gemwaith (gemau cain a gemau gwisgo), arian, cardiau post ac ati. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c, plant dan 16 am ddim. Ffôn: 01492 518597. Gwe: [www.simplythebestantiquefairs.co.uk/](http://www.simplythebestantiquefairs.co.uk/)

**21 Gorffennaf - Hanner Marathon Gogledd Cymru** - Wedi'i lleoli rhwng y mynyddoedd a'r môr ger Conwy, mae'r ras anhygoel hon yn dechrau ac yn gorffen ar y traeth wrth ymyl marina'r Mulberry ac yn croesi i mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ar hyd y ffordd. Efallai nad ydyw'r hanner marathon hwn yr hawsaf, ond mae'n un o'r rhai prydferthaf y gwnewch chi erioed! Yn dechrau am 11am. Ffôn: 07590 690041. Gwe: [www.runwales.com](http://www.runwales.com)

**21 i 28 Gorffennaf - Gŵyl Gerddoriaeth Glasurol Conwy** - Mae'r ŵyl wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad blynyddol y mae pawb yn edrych ymlaen ato. Cyngherddau gyda cherddorion enwog o Gymru a thu hwnt yn ogystal â pherfformiadau corawl a pherfformiadau cerddorfaol. Yn Eglwys y Santes Fair, Canol y Dref, Conwy. Ffôn: 01492 592166. Gwe: [www.conwyclassicalmusic.co.uk](http://www.conwyclassicalmusic.co.uk)

**26 a 27 Gorffennaf - Gŵyl Gelf Gogledd Cymru** - Gŵyl Gelf flynyddol a noddir gan Gymdeithas Gelfyddydau Sir Ddinbych gydag arddangosiadau paentio a masnachwyr yn gwerthu ystod o ddeunyddiau celf. Ym Mhorth Eirias, Y Promenâd, Bae Colwyn rhwng 10am a 4pm. Mynediad £2. Ffôn: 07808 473357. Gwe: [www.dasoc.info/](http://www.dasoc.info/)

**27 i 29 Gorffennaf - Gŵyl Jas Llandudno** - Bydd Gŵyl Jas Llandudno 2018 yn cynnwys llawer o dalent jas rhyngwladol ac o'r DU! Archebwch eich tocynnau rŵan ar gyfer penwythnos gwych o jas yn y Prif Bafiliwn Jas a mwy yn y digwyddiad ymylol poblogaidd - y cyfan ym Mharc Ffarm Bodafon, Bodafon Road, Llandudno o 12pm ar ddydd Gwener. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth: [www.llandudnojazzfestival.com/](http://www.llandudnojazzfestival.com/)

**28 Gorffennaf - Ffair Haf Hosbis Dewi Sant** - Ymunwch â ni yn Ffair Haf Hosbis Dewi Sant gyda stondin gacennau, barbiciw, raffl, ffrwythau a llysiau, stondinau crefft, stondin blanhigion, adloniant i blant. Mynediad: oedolyn £1, plentyn 50c. Ffôn: 01492 873664. Gwe: [www.stdavidshospice.org.uk](http://www.stdavidshospice.org.uk)

**29 Gorffennaf i 3 Awst - Gŵyl Fowls Colwyn** - Un o wyliau bowls mwyaf Prydain, ac yn cynnwys 7 cystadleuaeth o bwys. Prif gystadleuaeth yr ŵyl yw cystadleuaeth George Davies a sefydlwyd ym 1931 ac sy'n gystadleuaeth senglau cymysg sy'n agored i bob bowliwr. Ym Mharc Eirias, Abergele Road, Bae Colwyn o 9am yn ddyddiol. Gwe: [www.colwynbowlingfestival.co.uk](http://www.colwynbowlingfestival.co.uk)

*Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Os ydych yn trefnu digwyddiad a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr a thwristiaid ac yr hoffech i ni ei hyrwyddo ar eich rhan, ewch i [www.visitconwy.org.uk/information/get-listed](http://www.visitconwy.org.uk/information/get-listed). Byddwch yn cael eich cynnwys yn ôl disgrisiwn CBSC. Cynhyrchwyd gan Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, CBSC. Ffôn: 01492 575940 neu e-bost: [maggie.williams@conwy.gov.uk](mailto:maggie.williams@conwy.gov.uk)*